

Roedd Magna Carta 1215 yn diogelu barwniaid ffiwdal ac yn cyfyngu ar bwerau brenhinol, ond ni arweiniodd at heddwch. Gan ei fod yn Rhaglyw, cyhoeddodd William Magna Carta newydd, a ddaeth â heddwch i Loegr.

Cyn pen deng mlynedd o gael Cas-gwent, roedd William wedi adeiladu porth newydd gyda drysau derw mawr, wedi'i amddiffyn gan dyrrau crwn, ac roedd hyn wedi chwyldroi dylunio cestyll. Mae hi'n dal yn bosibl gweld y drysau heddiw.

Ar ddechrau ei 50au cafodd William ei wneud yn Iarll Iaf Penfro.

Pan roedd William yn 42 neu'n 43, priododd Isabel, merch 17 oed Richard de Clare. Daeth William yn Arglwydd Striguil (Cas-gwent) a Phenfro oherwydd y briodas.

Ymosodwyd ar William a chafodd ei anafu a'i ddal gan Guy de Lusignan, pan oedd yn 21. Talodd Eleanor o Aquitaine (gwraig Harri'r II) ei bridwerth pan glywodd am ddewrder William.

Pan roedd William tua 12, cafodd ei anfon i Normandi i'w fagu yng nghartref cefnder ei fam. Dyma lle dechreuodd ei hyfforddiant i fod yn farchog.

Pan roedd William tua 37 aeth ar bererindod i Jerwsalem, ar ran Tywysog Harri (mab Harri'r II), a oedd wedi tyngu llw'r Crwsadwyr ond a fu farw cyn iddo allu teithio i Jerwsalem.

Dechreuodd William ennill ei fywoliaeth drwy frwydro mewn twrnameintiau a'u hennill, pan roedd yn 22. Dros y 17 mlynedd nesaf, roedd William wedi trechu dros 500 marchog.

Adeiladodd tad William gastell Newbury heb ganiatâd Brenin Stephen. Pan roedd William yn 5 neu'n 6 oed, cafodd ei roi fel gwystl i sicrhau bod tad William yn ildio'r castell.

Cafodd Isabel a William eu plentyn olaf, merch o'r enw Joan, pan oedd William tua 63 oed ac roedd Isabel tua 37.

Y flwyddyn ar ôl iddyn nhw briodi, cafodd Isabel a William fab, hefyd o'r enw William. Aeth y pâr ymlaen i gael 10 o blant, 5 bachgen a 5 merch.

Bu Brenin John farw pan roedd William tua 70. Cafodd William wedyn ei ddewis yn Rhaglyw'r frenhiniaeth, ac i wasanaethu fel gwarchodwr Brenin Harri'r III a oedd yn naw oed.

Cafodd William ei wneud yn farchog ar faes y gad pan roedd yn 20, yn Driencourt, Normandi. Roedd yn brwydro ar ran Brenin Harri'r II.